www.breaksnorthwales.co.uk

www.adventure-northwales.com

www.golf-northwales.co.uk

www.walkingnorthwales.co.uk

www.moviemapnorthwales.co.uk

www.eventsnorthwales.co.uk

www.gardensnorthwales.co.uk

www.attractionsnorthwales.co.uk

www.walledtowns.co.uk

egroeso

bwletin electronig gan
Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru

Haul ar fryn i dwristiaeth ymysg y llymdra economaidd

01745 589020
www.tpnw.org

▶ tudalen nesaf

Haul ar fryn i dwristiaeth ymysg y llymdra economaidd

Gallai'r bunt wan roi hwb aruthrol i dwristiaeth yng Ngogledd Cymru yn 2009.

Dyna farn Neil Rowlands, sydd newydd ei ethol yn gadeirydd Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru, y corff sy'n gyfrifol am ddatblygiad strategol economi ymwelwyr y rhanbarth.

Cred Mr Rowlands, sy'n rhedeg gwesty pedair seren Tre-Ysgawen Hall, ar gyrion Llangefni, Ynys Môn, y gall y dirwasgiad economaidd hefyd ddarparu cyfleoedd i gwmnïau twristiaeth.

Meddai: "Mae gwendid cymharol y Bunt yn erbyn yr Euro yn fendith gymysg ond yr ochr orau yw'r ffaith y bydd yn dda i sawl agwedd bwysig o dwristiaeth.

"Yn un peth mae'n golygu y bydd yn ddrytach i bobl y Deyrnas Unedig fynd dramor ar eu gwyliau.

"Ar yr un pryd, bydd yn golygu bod y Deyrnas Unedig yn gyrchfan mwy deniadol i ymwelwyr o Ewrop oherwydd byddant yn cael mwy o bunnoedd am eu Euros."

Roedd Mr Rowlands, sy'n gyn Gadeirydd Cymdeithas Dwristiaeth Môn, wrth ei fodd o gael ei ethol i'w swydd newydd yn arwain y Bartneriaeth Twristiaeth.

Ychwanegodd: "Mae twristiaeth yn elfen hollbwysig o'r economi ac fel un o'r gwestai mwy, rwy'n teimlo fod angen i ni gyfrannu at y gwaith ac ychwanegu ein pwysau er mwyn helpu i fynd â'r diwydiant yn ei flaen.

"Mae'n hanfodol fod pawb sydd ynghlwm yn yr economi ymwelwyr, yn y sectorau preifat a chyhoeddus, yn gweithio gyda'i gilydd ac yn tynnu i'r un cyfeiriad.

"Ni chaiff unrhyw beth ei gyflawni trwy geisio bod yn annibynnol a rhaid i Ogledd Cymru weithio fel un.

"Mae'n golygu rhannu gweledigaeth a gallu cyfaddawdu hefyd fel bod pobl yn credu yn y weledigaeth.

"Rydym yn byw mewn adegau anodd ond rwy'n teimlo ei fod yn gyfle – gallai'r llymdra economaidd sydd ohoni olygu bod haul ar fryn i ni.

"Bydd pobl yn dal eisiau mynd i ffwrdd ac oherwydd bod y cysylltiadau trafnidiaeth wedi gwella rydym yn agosach nag erioed yn awr.

"Wrth i gost hedfan gynyddu, o ran pris yn ogystal â'r effaith ar yr amgylchedd, rhaid i ni wneud pob ymdrech i hyrwyddo ein marchnad gartref.

"Os gwnawn hynny, rwy'n credu fod gennym bob siawns o gael haf da dros ben.

"Mae ansawdd yr hyn sydd gan Ogledd Cymru i'w gynnig yn dod yn fwy a mwy pwysig.

"Mae cwsmeriaid yn fwy cyfarwydd nag erioed â theithio ac yn deall mwy am y safonau y mae arnynt eu heisiau, ac y maent yn eu disgwyl.

"Mae pobl yn disgwyl llawer ac os nad ydych yn darparu'r ansawdd disgwyliedig mae ganddyn nhw bob hawl i deimlo'n siomedig.

"Ar hyn o bryd, mae punnoedd pobl yn werth mwy nag erioed iddyn nhw ac ar yr un pryd, mae disgwyliadau'n

Neil Rowlands

tudalen flaenorol ◀ ▶ tudalen nesaf

uwch nag erioed.

"Rhaid i ni godi i'r her fel bod pobl yn dal i ddychwelyd i Ogledd Cymru.

"Nid lleihau costau na gostwng prisiau yw'r ffordd ymlaen i mi, ond ychwanegu gwerth."

Darryl Shaw, sy'n rhedeg Gwesty Rossett Hall, ger Wrecsam, yw Is-gadeirydd newydd y Bartneriaeth Twristiaeth.

Meddai Mr Shaw: "Yng Nghymru'r ddwy ardal eiconig yw Eryri a Chaerdydd ond mae twristiaeth hefyd yn hynod o bwysig i ardal fel Gororau Gogledd Cymru.

"Mae gennym lu o lefydd gwych i bobl ymweld â nhw yn yr ardal yma.

"Oherwydd datblygiad twristiaeth fusnes yn ardal y Gororau yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, rydym wedi gweld twf yn y rhwydwaith o westai tair a phedair seren.

"Mae bodolaeth rhwydwaith o safon yn ein galluogi i gynnig cynnyrch hamdden ardderchog hefyd.

"Mae gennym hefyd amgylchedd heb ei ail ac mae cwsmeriaid hefyd yn sylweddoli ei bod yn ardal eithriadol i ymweld â hi.

"Un o'r allweddi i lwyddiant denu mwy o ymwelwyr i ardal y Gororau yw mynediad i'r amgylchedd yna trwy bethau fel cerdded, golff a thwristiaeth ddiwylliannol.

"Byddai unrhyw un sydd wedi byw mewn dinas fawr yn croesawu ychydig ddyddiau yn yr ardal hon gydag arddeliad, gan fod gennym gymaint i'w gynnig.

"Rydym yn byw mewn cyfnod anodd sy'n rhoi gwendidau yn ogystal â chyfleoedd o'n blaenau.

"Mae'r wybodaeth sy'n ein cyrraedd o waith ymchwil a wnaed gan gyrff fel Croeso Cymru a Phartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru yn awgrymu y bydd pobl yn dal i fynd ar wyliau am bythefnos, a all fod i wlad dramor o hyd.

"Ond rhagwelir y byddant yn treulio'r ddau neu dri o wyliau byr eraill yn y Deyrnas Unedig felly mae'n hanfodol ein bod mewn cyflwr da er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn cael ein cyfran o'r farchnad.

Ansawdd yw popeth. Mae ymchwil wedi dangos fod y busnesau sydd wedi buddsoddi mewn ansawdd yn cael cyfran deg o'r farchnad.

"Er bod pethau'n anodd ar hyn o bryd, byddwn yn annog pawb sy'n ymwneud â thwristiaeth yn yr ardal i gynnal ansawdd yr hyn rydym yn ei gynnig.

"Gwyddom fod blwyddyn anodd o'n blaenau ond byddwn yn gweithio'n galed i leihau gorbenion busnes, a chynnal ansawdd ein cynnyrch ar yr un pryd er mwyn symud ymlaen pan fydd yr economi'n gwella.

Meddai Dewi Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth Rhanbarthol y Bartneriaeth Twristiaeth: "Rwyf wrth fy modd fod y Bwrdd wedi gallu ethol pobl o galibr Neil a Darryl yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd.

"Bydd eu brwdfrydedd, eu hymroddiad a'u gwybodaeth ddofn am y cynnyrch twristiaeth yn anhepgor wrth i ni ddelio â heriau 2009."

www.tpnw.org

Darryl Shaw

tudalen flaenorol ◄